

Fersiwn	CY3
Dyddiad Diwygio	Chwefror 2020

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'n well
workwell

Equality and Diversity
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

Polisi Hyfforddi a Byddino Lluoedd wrth Gefn



RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	Polisi Hyfforddi a Byddino Lluoedd wrth Gefn
Adran	Adnoddau Dynol
Ffôn	01443 424075
Dyddiad Cychwynnol	Mai 2014
Swyddog Adolygu	Grŵp Diwygio Polisiâu
Dyddiad Diwygio	Medi 2016
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar	Medi 2016
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
Mai 2015	Dilys Jouvenat
Medi 2016	Grŵp Diwygio Polisiâu
Chwefror 2020	Grŵp Safonau'r Gymraeg AD
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	Medi 2016
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol	
Cabinet	

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae fformatau eraill ar gael ar gais.

CYNNWYS

Cyflwyniad.....	1
Amcan a Chwmpas	1
Mathau o Filwyr wrth Gefn	1
Hysbysiad Statws Milwr wrth Gefn	2
Ymrwymadau hyfforddiant ac Amser i ffwrdd	3
Byddino	4
Cyn byddino.....	4
Yn ystod byddino	4
Ar ôl byddino.....	4
Cyflwyno cais am Eithrio/Gohirio/Dirymu	5
Gweithredu'r Telerau ac Amodau yn ystod byddino	5
Tâl.....	6
Pensiwn	6
Gwyliau Blynnyddol.....	6
Diswyddo / Dileu Swydd.....	6
Tâl Salwch	7
Dychwelyd i'r Gwaith	7
Ôl-ofal.....	8
Cymorth Ariannol	9
Costau unwaith yn unig.....	9
Costau rheolaidd.....	9
Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant.....	9
Rhagor o wybodaeth	10

1. **CYFLWYNIAD**

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf weithwyr sy'n aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn ac mae'n cydnabod cyfraniad gwerthfawr y milwyr wrth gefn at Lluoedd Arfog y DU, eu cymunedau a'r gweithle sifil.

2. **AMCAN A CHWMPAS**

Mae'r Cyngor wedi addo cefnogi aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, a'r rheiny sy'n dymuno ymuno â nhw, ac mae'n cydnabod yr hyfforddiant mae Milwyr Wrth Gefn yn ymgymryd ag ef sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau a galluoedd sydd o fudd i unigolion ac i'w cyflogwyr.

Amcan y polisi yma yw diffinio ein rhwymedigaethau i'r holl weithwyr sy'n aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn. Mae'r ddogfen sydd wedi'i hatodi, *Arweiniad Milwyr Wrth Gefn ar gyfer Rheolwyr Llinell*, yn ganllaw ymarferol i helpu i reoli a chefnogi'r gweithwyr yma.

Fydd y Cyngor ddim yn rhoi'r Milwyr Wrth Gefn hynny sy'n rhoi gwybod i'r Cyngor am eu statws Milwr Wrth Gefn, neu'r Milwyr Wrth Gefn hynny y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi gwybod i'r Cyngor amdanyn nhw, o dan anfantais.

Yn amodol ar y darpariaethau sydd wedi'u pennu yn Rhan 4, bydd y Cyngor yn cytuno i ryddhau Milwyr Wrth Gefn er mwyn mynychu digwyddiadau Hyfforddi Lluoedd Wrth Gefn, lle mae'r rhain yn digwydd ar eu diwrnodau gwaith arferol.

Yn amodol ar y darpariaethau sydd wedi'u pennu yn Rhan 5, bydd y Cyngor yn cytuno i ryddhau'r holl weithwyr sy'n cael eu byddino ar gyfer dyletswyddau Milwyr Wrth Gefn.

Bydd y Cyngor yn parhau i ystyried contractau cyflogaeth y gweithwyr hynny sy'n cael eu byddino ar gyfer Gwasanaeth Milwyr Wrth Gefn yn contractau gweithredol drwy gydol cyfnod gwasanaeth o'r fath a fydd gwasanaeth di-dor na buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth ddim yn cael eu colli.

O dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985, bydd gwasanaeth gweithiwr yn cael ei ddwyn i ben wrth iddo gael ei fyddino, ond os yw'r gweithiwr yn dilyn y weithdrefn hysbysu gywir o dan y Ddeddf, bydd e'n/hi'n cael dychwelyd i'w swydd a bryd hynny, bydd parhad ei wasanaeth yn cael ei adfer.

3. **MATHAU O FILWYR WRTH GEFN**

Mae dau brif fath ar Filwyr Wrth Gefn:

- Milwyr Wrth Gefn sy'n Gwirfoddoli - sifiliaid sy'n cael eu recriwtio i Gronfeydd Wrth Gefn y Llynges Frenhinol, Gwarchodfeydd Môr-filwyr Brenhinol, Adfyddin, Awyrlu Cynorthwyol Brenhinol a Swyddogion Llu Cadetiaid Wrth Gefn a Gomisiynwyd.
- Milwyr Wrth Gefn Rheolaidd - cyn-filwyr wrth gefn a allai gadw rhwymedigaeth i'w byddino yn dibynnu ar ba mor hir y maen nhw wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

Mae Deddf Lluoedd Wrth Gefn 1996 hefyd yn darparu ar gyfer categorïau eraill, megis:

- Gwasanaeth Milwyr Wrth Gefn Amser Llawn - Milwyr Wrth Gefn sydd yn dymuno gwasanaethu amser llawn dros gyfnod sydd wedi'i bennu ymlaen llaw mewn swydd benodol
- Ymrwymiad Dyletswyddau Ychwanegol - gwasanaeth rhan-amser am gyfnod penodedig mewn swydd benodol
- Milwyr Wrth Gefn wedi'u Noddi - Personél yw'r rhain sydd wedi'u cyflogi gan contractiwr i ddarparu gwasanaeth ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- Milwyr Wrth Gefn sydd ar gael ar fyr rybudd - Milwyr sydd â set o sgiliau penodol yw'r rhain fel arfer sy'n barod i wasanaethau ar fyr rybudd (gyda chydysyniad ysgrifenedig eu cyflogwr)

4. HYSBYSIAD STATWS MILWR WRTH GEFN

Mae'n ofynnol i filwyr wrth gefn hysbysu eu cyflogwr eu bod nhw'n aelod o'r Lluoedd Wrth Gefn gan nodi'r llun penodol maen nhw'n perthyn iddo. Rhaid gwneud hynny er mwyn i'r Cyngor allu darparu'r lefel briodol o gefnogaeth ar gyfer y Milwr Wrth Gefn. Mae hefyd yn helpu gyda chynllunio adnoddau yn ystod cyfnodau o absenoldeb, e.e. hyfforddiant a/neu fyddino. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y sgiliau a'r profiadau ychwanegol mae bod yn Filwr Wrth Gefn yn gallu eu rhoi i'r Cyngor ac felly, mae'n ddefnyddiol i'r Cyngor fod â dealltwriaeth o ble mae'r sgiliau a'r profiadau penodol yma'n bodoli.

Mae'n ofynnol i Filwyr Wrth Gefn sy'n weithwyr roi caniatâd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ysgrifennu yn uniongyrchol at eu cyflogwr hefyd. Mae hyn yn cael ei alw'n 'Hysbysiad Cyflogwr' ac mae'n sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybod bod y gweithiwr yn Filwr Wrth Gefn ac am y buddion, yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n berthnasol.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyhoeddi cadarnhad ysgrifenedig i'r cyflogwr fydd yn ei hysbysu bod y gweithiwr yn Aelod o'r Lluoedd Wrth Gefn. Bydd y llythyr yn rhoi gwybodaeth fanwl am y rhwymedigaethau byddino a'r hawliau fel gweithiwr; hawliau fel cyflogwr; a gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael os yw'r gweithiwr yn cael ei fyddino.

Lle bo'n bosibl, bydd hefyd yn rhoi manylion am unrhyw ymrwymïadau

hyfforddiant blynyddol. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd yn anfon llythyr dilynol bob blwyddyn i gadarnhau bod yr wybodaeth sydd ganddi yn gywir o hyd.

Cyfrifoldeb y Milwr Wrth Gefn yw sicrhau bod ei fanylion personol yn gywir ar bob adeg, e.e. os yw'n gweithio i gyflogwr newydd neu'n gadael ei Lu Wrth Gefn perthnasol.

Mewn unrhyw amgylchiadau, fydd y Milwr Wrth Gefn ddim o dan unrhyw anfantais o roi gwybod i'r Cyngor am ei statws Milwr Wrth Gefn.

5. YMRWYMIADAU HYFFORDDIANT AC AMSER I FFWRDD O'R GWAITH

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd yr hyfforddiant mae Milwyr Wrth Gefn yn ymgymryd ag ef, sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau a galluoedd sydd o fudd i'w Lluoedd Wrth Gefn perthnasol, yr unigolyn a'r Cyngor

Fel arfer, mae Milwyr Wrth Gefn yn ymrwymo i ymgymryd â 24-40 o ddiwrnodau o hyfforddiant y flwyddyn.

Mae ymrwymadau hyfforddi yn amrywio ond yn y rhan fwyaf o achosion, maen nhw'n cynnwys:

- **Hyfforddiant wythnosol** - mae'r rhan fwyaf o Filwyr Wrth Gefn yn cael hyfforddiant yn eu canolfan leol am tua dwy awr a hanner ar un noson o'r wythnos.
- **Hyfforddiant ar y penwythnos** - mae disgwyl i bob Milwr Wrth Gefn fynychu penwythnosau hyfforddiant, sy'n digwydd drwy gydol y flwyddyn.
- **Hyfforddiant blynyddol** - cwrs hyfforddiant 15 diwrnod sy'n cael ei alw'n 'wersyll blynyddol' ambell waith. Gall hyn ddigwydd mewn sefydliad hyfforddi gydag Uned Barhaol, ymarfer hyfforddiant neu gyfuniad o'r rhain. Fel arfer, mae'r hyfforddiant yn digwydd o fewn y DU, er, bob blwyddyn, mae rhai Milwyr Wrth Gefn yn ymgymryd â hyfforddiant dramor.

Dan y gyfraith, does dim rheidrwydd ar gyflogwyr i roi caniatâd i fod yn absennol ar gyfer mynychu sesiynau hyfforddiant. Serch hynny, mae'r Cyngor yn fodlon rhoi gwyliau blynyddol ychwanegol o bythefnos y flwyddyn (ar gyflog) i Filwyr Wrth Gefn er mwyn eu galluogi yn benodol i fynd i'w gweryll blynyddol.

Bydd absenoldeb di-dâl ychwanegol neu wyliau blynyddol o ddyraniad blynyddol arferol y gweithiwr hyd at 5 diwrnod yn cael ei roi / eu rhoi am gyfnodau byr o hyfforddiant os yw rhybudd digonol yn cael ei roi ac os nad oes modd ymgymryd â'r hyfforddiant yma pan na fydd y gweithiwr yn gweithio. Bydd presenoldeb mewn hyfforddiant penwythnos nad oes modd ymgymryd ag ef pan na fydd y gweithiwr ar ddyletswydd yn ddarostyngedig i'r

un trefniadau.

Bydd Rheolwyr Llinell yn hwyluso rhestrau dyletswyddau gwaith i ganiatáu presenoldeb mewn gweryll blynyddol ac ymrwymadau hyfforddiant eraill (e.e. sesiynau hyfforddiant wythnosol neu ar y penwythnos) oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

Dylai gweithwyr sy'n filwyr wrth gefn roi cymaint o rybudd ag y bo modd o ymrwymadau hyfforddiant er mwyn caniatáu cynllunio priodol ar gyfer absenoldebau. Unwaith i ganiatâd gael ei roi, fydd e ddim yn cael ei dynnu'n ôl oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

6. **BYDDINO**

Byddino yw galw Milwyr Wrth Gefn i wasanaethu'n amser llawn gyda'r Lluoedd Arferol, er mwyn sicrhau eu bod nhw ar gael ar gyfer gweithrediadau milwrol. Bydd y cyfnod hwyaf ar gyfer byddino yn dibynnu ar faint a natur y gweithredu. Fel arfer, fydd e ddim yn hwy na 12 mis.

Bydd y papurau galw-allan yn cael eu hanfon drwy'r post i'r Cyngor, neu weithiau, byddan nhw'n cael eu cyflwyno yn bersonol i'r rheolwr llinell. Bydd y dogfennau yn cynnwys y dyddiad galw-allan a'r dyddiad dychwelyd tebygol.

Pryd bynnag y bo modd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ceisio rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd cyn y byddino, er, does dim gofyniad statudol ynglŷn â'r cyfnod o rybudd.

Bydd cyfnod o fyddino yn cynnwys tri cham penodol:

- Hyfforddiant meddygol a chyn-fyddino;
- Taith ymgyrchol;
- Absenoldeb ar ôl y daith ymgyrchol

Dylai Rheolwyr Llinell gyfeirio at y *Canllawiau ar gyfer Rheolwyr Llinell a Milwyr Wrth Gefn* enghreifftiol sydd ynghlwm wrth y polisi enghreifftiol yma i gael rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu canlynol:

Cyn-fyddino

- Cynnal cyfarfod gyda'r Milwr Wrth Gefn i sicrhau bod yr holl waith papur byddino wedi cael ei gwblhau (gan gynnwys trefniadau tâl, buddion a phensiwn)
- Gwneud cais am gymorth ariannol fel y bo'n briodol (gweler adran 10 o'r polisi)
- Trafod unrhyw waith fydd yn cael ei drosglwyddo a dychwelyd offer
- Trefniadau cadw mewn cysylltiad
- Cyfeirio at y rhestrau gwirio yn y Canllawiau ar gyfer Rheolwr Llinell a

Milwr Wrth Gefn Yn ystod y cyfnod byddino

- Cadw mewn cysylltiad â'r Milwr Wrth Gefn fel sydd wedi'i drefnu

Ar ôl byddino

- Sicrhau bod y cyflogwr a'r Milwr Wrth Gefn yn cyflawni eu rhwymedigaethau dychwelyd i'r gwaith (gan gynnwys cyfeirio at y llythyrau templed)
- Gofynion ôl-ofal a chymorth

7. **CYFLWYNO CAIS AM EITHRIO/GOHIRIO/DIRYMU**

Ym mhob achos o fyddino, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r Milwr Wrth Gefn oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Yn yr achosion yma, bydd y penderfyniad a'r rhesymu yn cael eu hegluro i'r Milwr wrth Gefn.

Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd rheolwyr llinell â'r hawl i wneud cais am eithrio, gohirio neu ddiddymu os yw'n cael ei ystyried y bydd absenoldeb y Milwr Wrth Gefn yn achosi niwed difrifol o ran darparu gwasanaethau. Mae'r eithriad yma'n dod o dan Reoliadau Lluoedd Wrth Gefn (Galw-allan ac Adalw)(Eithriadau ac ati) 1997.

Bydd diffiniadau o 'niwed' yn amrywio o achos i achos, ond fe allen nhw gynnwys:

- colli enw da, ewyllys da neu niwed ariannol arall
- amhariad ar y gallu i ddarparu nwyddau neu wasanaethau
- niwed i'r gwaith ymchwil ar gyfer cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd - neu ddatblygu'r rhain - (nad oedd modd ei atal drwy ganiatáu cymorth ariannol o dan adrannau 83 ac 84 o Ddeddf y Lluoedd Wrth Gefn 1996).

Mae gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut i wneud cais am eithrio yn cael ei chynnwys yn y pecyn galw-allan. Rhaid i'r cais ddod i law'r Swyddog Dyfarnu cyn pen 7 diwrnod o'r Cyngor yn cael yr hysbysiad galw-allan. Os na fydd modd anfon y cais mewn pryd, bydd angen cael caniatâd i wneud cais hwyr gan y Swyddog Dyfarnu. Bydd gan y Milwr wrth Gefn yr hawl i wneud cais am eithrio neu ohirio hefyd, os yw'r papurau galw-allan yn cyrraedd ar amser anodd.

Os yw penderfyniad anfoddhaol yn cael ei dderbyn yn dilyn cais am ohirio, caiff y Cyngor apelio am wrandawriad gan Dribiwnlys Apeliadau'r Lluoedd Wrth Gefn. Rhaid i apeliadau gyrraedd yr Ysgrifennydd Tribiwnlysoedd cyn pen 5 diwrnod o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad. Os yw'r tribiwnlys yn gwrthod y cais am eithrio neu ohirio, bydd hi'n ofynnol i'r Cyngor ryddhau'r Milwr Wrth Gefn ar gyfer byddino.

8. GWEITHREDU'R TELERAU AC AMODAU YN YSTOD BYDDINO

Bydd y Cyngor yn parhau i ystyried contractau cyflogaeth y gweithwyr hynny sy'n cael eu byddino ar gyfer Gwasanaeth Milwyr Wrth Gefn yn contractau gweithredol drwy gydol cyfnod gwasanaeth o'r fath a fydd gwasanaeth di-dor na buddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth ddim yn cael eu colli.

O dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985, bydd gwasanaeth gweithiwr yn cael ei ddwyn i ben wrth iddo gael ei fyddino, ond os yw'r gweithiwr yn dilyn y weithdrefn hysbysu gywir o dan y Ddeddf, bydd e'n/hi'n cael dychwelyd i'w swydd a bryd hynny, bydd parhad ei wasanaeth yn cael ei adfer.

Cyflog

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gyflog y Milwr wrth Gefn drwy gydol cyfnod y byddino. Bydd y Weinyddiaeth yn talu cyflog sylfaenol yn ôl rheng filwrol y Milwr wrth Gefn. Os yw'r elfen sylfaenol yma'n is na'r tâl mae'r Milwr wrth Gefn yn ei gael gan y Cyngor, gyfrifoldeb y Milwr wrth Gefn fydd gwneud cais i'r Weinyddiaeth Amddiffyn am y gwahaniaeth er mwyn sicrhau nad yw'n colli allan yn ariannol. 'Dyfarniad Milwr wrth Gefn' yw hyn.

Pan fydd byddino yn digwydd, bydd y gweithiwr yn cael caniatâd absenoldeb di-dâl arbennig.

Dydy hi ddim yn ofynnol i'r Cyngor dalu cyflog y Milwr wrth Gefn yn ystod y cyfnod byddino.

Pensiwn

Os yw'r Milwr wrth Gefn yn aelod o gynllun pensiwn y Cyngor ac mae'r cyflogwr yn atal y cyfraniad cyflogwr, ac mae'r Milwr wrth Gefn yn dewis aros ynddo, yna bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gwneud y cyfraniadau cyflogwr ar gyfer cyfnod y byddino, ar yr amod bod y Milwr wrth Gefn yn parhau i wneud ei gyfraniadau personol.

Gwyliau Blynyddol

Dylai Milwyr wrth Gefn gael eu hannog i gymryd unrhyw wyliau blynyddol sydd wedi'u cronni cyn byddino. Does dim rhaid i'r Cyngor gronni gwyliau blynyddol ar gyfer gweithiwr sy'n Filwr wrth Gefn yn ystod y cyfnod byddino. Mae Milwyr wrth Gefn yn cronni gwyliau blynyddol gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn tra eu bod nhw mewn gwasanaeth amser llawn. Pan fyddan nhw'n byddino, mae gan Filwyr wrth Gefn yr hawl i gael cyfnod o absenoldeb ôl-yngyrchol (POL). Yn ystod y cyfnod yma, byddan nhw'n parhau i gael eu talu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Diswyddo / Dileu Swydd

All cyflogaeth Milwr wrth Gefn ddim cael ei dwyn i ben ar sail ei ddyletswyddau milwrol neu'i gyfrifoldeb o ran byddino. Byddai gwneud hynny'n dramgwydd troseddol o dan adran 17 o Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985.

Mae modd cynnwys Milwyr wrth Gefn yn y gronfa ar gyfer dileu swyddi os yw hyn yn angenrheidiol oherwydd adolygiad gwasanaeth neu newidiadau i anghenion yr adran. Serch hynny, dylai pob gweithiwr gael ei drin mewn modd cyson, a ddylai meini prawf dileu swyddi ddim gwahaniaethu yn erbyn Milwyr wrth Gefn ar sail eu gwasanaeth milwrol neu'u cyfrifoldeb byddino.

Tâl Salwch

Yn ystod y cyfnod byddino, bydd y Milwr wrth Gefn yn parhau i gronni unrhyw hawliau i dâl salwch y Cyngor sy'n gysylltiedig â gwasanaeth. Os yw Milwr wrth Gefn yn mynd yn sâl neu'n cael ei anafu yn ystod y cyfnod byddino, bydd y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn yn darparu ar ei gyfer a bydd unrhyw gymorth ariannol (gan gynnwys tâl) yn parhau tan y dadfyddino. Os yw'r salwch neu'r anaf yn parhau ac mae hynny'n arwain at ddadfyddino cynnar, bydd y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn yn darparu ar gyfer y Milwr wrth Gefn tan ddiwedd yr absenoldeb milwrol â thâl.

Ar ôl hynny, bydd Polisi Absenoldeb Oherwydd Salwch y Cyngor yn darparu ar gyfer y Milwr wrth Gefn.

Os bydd y Milwr wrth Gefn yn mynd yn sâl ar ôl byddino, ac mae dyddiad dychwelyd i'r gwaith tybiannol wedi cael ei gytuno, bydd trefniadau salwch y Cyngor yn darparu ar ei gyfer.

9. DYCHWELYD I'R GWAITH

Mae gan y Milwr wrth Gefn a'i gyflogwr rwymedigaethau o dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 mewn perthynas â'r broses dychwelyd i'r gwaith.

Cyflogwr:

Mae gan y cyflogwr rwymedigaeth o dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn (Diogelu Cyflogaeth) 1985 i adfer y Milwr wrth Gefn i'w swydd - i'w swydd flaenorol lle mae hynny'n bosibl - ac os na, i swydd sy'n dderbyniol gan y ddwy ochr ar yr un telerau ac amodau â chyn y byddino.

Dylai'r Milwr wrth Gefn gael ei adfer i'w swydd cyn pen 6 wythnos o ddiwrnod olaf ei wasanaeth amser llawn. Rhaid iddo gael ei adfer am 13, 26 neu 52 o wythnosau, gan ddibynnu ar hyd ei wasanaeth cyn y byddino.

Ambell waith, bydd angen hyfforddiant gloywi ar Filwyr wrth Gefn pan fyddan nhw'n dychwelyd i'r gwaith, neu fe ddylen nhw gael amser i ymgylfarwyddo â'r prosesau a'r gweithdrefnau yn y gweithle. Mae'n bosibl bydd cymorth

ariannol ar gael ar gyfer ailhyfforddi os oes angen hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r byddino. Er hynny, does dim modd cyflwyno ceisiadau ar gyfer cyrsiau hyfforddiant a fyddai wedi cael eu cynnal beth bynnag. Bydd angen tystiolaeth o'r costau yn ogystal â thystiolaeth nad oedd modd i'r Milwr wrth Gefn gyrraedd y safon ofynnol drwy unrhyw ddull arall, megis profiad yn y gweithle.

Milwr wrth Gefn:

I wneud cais i ddychwelyd i'r gwaith gan awgrymu dyddiad ar gyfer hynny, rhaid i'r Milwr wrth Gefn ysgrifennu at ei gyflogwr erbyn y trydydd dydd Llun ar ôl ei ddiwrnod olaf o wasanaeth milwrol. Dylai'r dyddiad sydd wedi'i awgrymu ddod o fewn 6 wythnos i ddiwrnod olaf ei wasanaeth amser llawn. Mae'r llythyr yma'n cychwyn y broses dychwelyd i'r gwaith yn ffurfiol a bydd croeso ei gyflwyno yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Bydd e/hi hefyd yn cael ei annog i gysylltu â'r cyflogwr yn anffurfiol ar y cyfle cyntaf i drafod dychwelyd i'r gwaith, boed hynny drwy lythyr, cyfarfod neu alwad ffôn. Rhaid i gais ysgrifenedig ffurfiol gael ei gyflwyno er mwyn iddo fod yn ddilys o dan y Ddeddf.

Os yw swydd arall yn cael ei chynnig i'r Milwr wrth Gefn ar ôl iddo/iddi ddychwelyd i'r gwaith, a dydy e/hi ddim yn fodlon ar y cynnig hwnnw, rhaid iddo/iddi ysgrifennu at y cyflogwr gan nodi achos rhesymol am beidio â'i dderbyn. Os yw Milwr wrth Gefn o'r farn bod ymateb cyflogwr i'w gais yn mynd yn groes i'w hawliau o dan Ddeddf Diogelu Cyflogaeth 1985, bydd modd cyflwyno cais i'r Pwyllgor Adfer er mwyn iddo wneud asesiad. Bydd y pwyllgor yma'n ystyried cais y Milwr wrth Gefn ac mae modd iddo wneud gorchymyn ar gyfer adfer a/neu iawndal.

10. ÔL-OFAL

Bydd Milwr wrth Gefn sy'n dychwelyd i'r gwaith yn manteisio ar broses ailintegreiddio i'r gweithle/garfan lefn. Dylai'r canlynol gael eu hystyried yn rhan o'r broses yma:

- Yr angen i roi'r newyddion diweddaraf iddo/iddi mewn perthynas â newidiadau a datblygiadau yn y Cyngor.
- Yr angen i gynnig hyfforddiant gloywi penodol os yw'r gweithiwr yn ei geisio neu os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.
- Os yw'r dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd wedi newid ers y byddino, efallai y bydd angen hyfforddiant i gynorthwyo gydag agweddau newydd ar y swydd.
- A fyddai'n bosibl i'r Milwr wrth Gefn gwrdd â chydweithwyr yn anffurfiol neu'n gymdeithasol, cyn, neu ar ôl dychwelyd i'r gwaith er mwyn atal ymdeimlad o ddatgysylltu, os yw'r gweithiwr yn dymuno hynny?
- Amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith i gael triniaeth therapiwtig os oes angen.

Adolygu Cyflawniad

Dylai rheolwyr llinell sy'n cynnal cyfarfodydd Adolygu Cyflawniad gyda Milwr wrth Gefn fod yn effro i'r ffaith bod gweithgareddau'r Lluoedd Wrth Gefn mae'r Milwr wrth Gefn yn ymgymryd â nhw yn ystod ei hyfforddiant neu yn ystod y byddino, yn dod â medrau hanfodol i mewn i'r gweithle, er enghraifft arweinyddiaeth, cyfathrebu, gwaith tîm, cadw trefn, a all yn y pendraw arwain at gyflawniad gwell yn y gweithle.

11. CYMORTH ARIANNOL

Bydd cymorth ariannol i gyflogwyr pan fydd gweithiwr sy'n Filwr wrth Gefn yn cael ei fyddino, yn cael ei reoli gan Reoliadau Lluoedd Wrth Gefn (Galw-allan ac Adalw) (Cymorth Ariannol) 2005 (fel y'u diwygiwyd Mawrth 2015). Mae'r rhain yn darparu ar gyfer costau ychwanegol sydd uwchlaw enillion arferol y Milwr wrth Gefn sy'n cael ei alw-allan, sy'n gysylltiedig â chael gweithiwr arall yn ei le. Mae 3 math o ddyfarniad ar gael:

Costau unwaith yn unig

- Ffioedd asiantaeth, os yw asiantaeth recriwtio neu asiantaeth gyflogi yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i weithiwr dros dro; neu gostau hysbysebu
- Dim terfyn uchaf ar gyfer hawliadau, ond rhaid i unrhyw hawliad gael ei ategu gan ddogfennau perthnasol
- Costau trosglwyddo am gyfnod o bum diwrnod cyn byddino a phum diwrnod ar ôl dychwelyd i'r gwaith (yn ddarostyngedig i derfyn uchaf)
- Costau dillad arbenigol, hyd at 75% (hyd at uchafswm o £300) ar gyfer prynu dillad arbenigol ar gyfer person sy'n cymryd lle Milwr wrth Gefn yn ystod cyfnod o fyddino.
- Costau hyfforddiant angenrheidiol (hyd at £2,000) ar gyfer rhoi hyfforddiant i berson sy'n cymryd lle Milwr wrth Gefn yn ystod byddino, er mwyn sicrhau ei fod e mor effeithiol â phosibl yn ei swyddogaeth.

Costau rheolaidd

- Costau goramser, os yw'r gweithwyr eraill yn gweithio goramser i wneud gwaith y Milwr wrth Gefn [gan y swm y bydd costau o'r fath yn mynd dros ben enillion y Milwr wrth Gefn]
- Costau gweithiwr dros dro [gan y swm y bydd costau o'r fath yn mynd dros ben enillion y Milwr wrth Gefn]

Yr hawliad uchaf posibl yw £110 y diwrnod (£40,000 y flwyddyn). Bydd modd gwneud hawliadau am bob diwrnod gwaith arferol mae Milwr wrth Gefn i ffwrdd yn gwasanaethu. Rhaid i gais am gostau untro a chostau rheolaidd gael ei gyflwyno o fewn 4 wythnos ar ôl i wasanaeth amser llawn y Milwr wrth Gefn ddod i ben.

Dyfarniad hyfforddiant

Os oes rhaid i Filwr wrth Gefn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i'r byddino (ac eithrio hyfforddiant arferol), yna, caiff y Cyngor gyflwyno cais am gymorth ariannol.

12. **RHAGOR O WYBODAETH**

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar gael gan y canlynol:

Rheoli Cysylltiadau Amddiffyn (Defence Relationship Management)
www.gov.uk/government/groups/defence-relationship-management

Llinell gymorth: – 0800 389 5459. Mae'r llinell gymorth yma'n rhad ac am ddim ac ar gael yn ystod oriau swyddfa. Yma, mae modd cael cyngor ac arweiniad ar faterion hyfforddi, byddino a chyflogi.

- Gwefan y Llynges Frenhinol www.royalnavy.mod.uk/the-fleet/maritime-reserves
- Gwefan y Fyddin: www.army.mod.uk/join/20233.aspx
- Gwefan yr Awyrlu Brenhinol www.raf.mod.uk/rafreserves